***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

*Gwnaed yr Offeryn Statudol hwn o ganlyniad i ddiffyg yn O.S. 2017/949 (Cy. 237) (C. 85) ac fe'i dyroddir yn rhad ac am ddim i bawb y gwyddys iddynt gael yr Offeryn Statudol hwnnw.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 Rhif 967 (Cy. 249) (C. 90)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 (Cychwyn) (Diwygio) 2017

*Gwnaed - - - - 3 Hydref 2017*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 126(2) a (3) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

### Enwi

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 (Cychwyn) (Diwygio) 2017.

### Diwygio Gorchymyn Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 (Cychwyn) 2017

**2.** Mae erthygl 3 o Orchymyn Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 (Cychwyn) 2017(**2**) wedi ei dirymu.

*Rebecca Evans*
Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol, o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon, un o Weinidogion Cymru

3 Hydref 2017

(**1**) 2017 dccc 2.
(**2**) O.S. 2017/949 (Cy. 237) (C. 85).

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn, sydd wedi ei wneud gan Weinidogion Cymru, yn diwygio Gorchymyn Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 (Cychwyn) 2017 ("y Gorchymyn Cychwyn gwreiddiol").

Mae erthygl 3 o'r Gorchymyn Cychwyn gwreiddiol yn dwyn i rym ar 1 Ionawr 2018 ddarpariaethau yn Neddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 sy'n ymwneud â rhoi tyllau mewn rhannau personol o gyrff plant (Rhan 5 ac adran 94 at ddibenion Rhan 5).

Mae'r Gorchymyn hwn yn dirymu erthygl 3 o'r Gorchymyn Cychwyn gwreiddiol, a gafodd ei chynnwys drwy gamgymeriad. Bydd y darpariaethau hynny yn cael eu dwyn i rym ar ddyddiad diweddarach drwy orchymyn cychwyn ar wahân.